cyfrifiad
2021

Mae cyfrifiad llawn wedi cael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr bob deng mlynedd ers 1801, heblaw am 1941 oherwydd yr Ail Ryfel Byd.

1801 – Roedd y rhesymeg y tu ôl i'r cyfrifiad yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth, rhesymau diplomyddol a thwf y boblogaeth a phryderon na fyddai digon o fwyd ar gyfer y wlad gyfan.

1841 – Mae'n debyg mai hwn oedd y cyfrifiad modern cyntaf lle cafodd arolygon o ddrws i ddrws eu cynnal ar gyfer pob cartref.

1851 – Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r cyfrifiad gynnwys cwestiynau am union oedran pobl, eu statws priodasol, eu perthynas â phennaeth y tŷ a'u man geni.

1921 – O ganlyniad i Ddeddf y Cyfrifiad 1920, cafodd y cyfrifiad gorfodol cyntaf ei gynnal yn 1921.

1931 – Cafodd y cyfrifiad ei gynnal ond, yn anffodus, cafodd holl gofnodion y cyfrifiad eu dinistrio mewn tân!

1941 – Ni chafodd cyfrifiad ei gynnal oherwydd yr Ail Ryfel Byd. Felly, ar ôl i ddata'r cyfrifiad o 1921 gael eu cyhoeddi, byddai'n rhaid aros 30 mlynedd arall cyn i ni allu cyhoeddi'r ymatebion nesaf o 1951.

1961 – Dyma'r tro cyntaf i gyfrifiadur gael ei ddefnyddio ar gyfer data'r cyfrifiad.

2001 – Cafodd cwestiwn gwirfoddol am grefydd ei ychwanegu, ac mae'n dal i fod yn wirfoddol ar gyfer 2021 hefyd.

2011 – Gallai pobl gwblhau'r cyfrifiad diwethaf ar lein, a gwnaeth 16.4% o bobl hynny. Yn 2021, rydym ni'n cynnal cyfrifiad digidol yn gyntaf a'r prif ffocws fydd llenwi'r holiadur ar lein.